



Newid y ffordd rydyn ni'n gwneud etholiadau yng Nghymru

**Mae ar Lywodraeth Cymru eisiau gwybod beth
rydych chi'n ei feddwl**



**Fersiwn Hawdd ei Ddeall yw hwn o 'Ymgynghoriad ar Ddiwygio
Etholiadol Llywodraeth Cymru'.**

Awst 2017

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn glas trwm a dywedir beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.



Pan fydd y ddogfen yn dweud 'ni', mae hyn yn meddw **Llywodraeth Cymru.**

I gael mwy o gopïau o'r fersiwn Hawdd ei Ddeall hwn, cysylltwch â:



Fairer Futures Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff. CF10 3NQ



Ffôn: 0300 060 3300



E-bost: SEPMailbox@wales.gsi.gov.uk



Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn Hawdd ei Deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols.

Cynnwys

Tudalen

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon	2
Beth y mae'r gweinidog Mark Drakeford yn ei ddweud	4
Am beth mae hyn yn sôn	6
Pwy sy'n cael pleidleisio?	8
Oedran pleidleisio	8
Pobl o'r Undeb Ewropeaidd	9
Cael mwy o bobl i gofrestru i bleidleisio	12
Pawb mewn tŷ yn cofrestru gyda'i gilydd	13
Y ffordd rydyn ni'n pleidleisio	15
Gorsafoedd pleidleisio	15
Pawb yn postio eu pleidlais	17
Pleidleisio ar eich cyfrifiadur	18
Pleidleisio ar eich cyfrifiadur neu ffôn clyfar	19
Defnyddio manau eraill ar gyfer gorsafoedd pleidleisio	20
Sefyll mewn etholiad	21
Beth y mae ymgeiswyr yn ei feddwl	22
Pleidiau gwleidyddol	23
Geiriau anodd	25

Beth y mae'r gweinidog Mark Drakeford yn ei ddweud



Rydyn ni wedi bod yn pleidleisio yn yr un ffordd am lawer o flynyddoedd. Mae gennym ni nawr gyfle i benderfynu a ydyn ni am newid y ffordd rydyn ni'n rhedeg etholiadau.



Rydyn ni'n gobeithio y bydd gwneud newidiadau i etholiadau yn ei gwneud hi'n haws i bawb bleidleisio.



Mae arnon ni eisiau i fwy o bobl sefyll mewn etholiad ac eisiau i fwy o bobl bleidleisio mewn etholiad.



Mae arnon ni eisiau meddwl am:

- wahanol ffyrdd o gofrestru i bleidleisio



cofrestru i bleidleisio – dyma pryd y mae gennych chi eich enw ar restr o bobl sydd yn cael pleidleisio.



- gwahanol ffyrdd o bleidleisio



- gadael i bobl ifainc bleidleisio



- ffyrdd i chi ddod i wybod am y bobl sy'n sefyll mewn etholiad.



Gobeithio y byddwch yn ateb y cwestiynau sydd gennym yn y papur hwn.



Mae arnon ni wir eisiau gweld beth sy'n ddefnyddiol a beth yn eich meddwl chi sy'n edrych yn dda.



Mark Drakeford,
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a
Llywodraeth Leol

Am beth mae hyn yn sôn



Mae'n bwysig eich bod chi'n pleidleisio mewn etholiadau. Mae arnon ni angen i chi fod eisiau pleidleisio. Ac mae arnon ni eisiau gwneud pleidleisio yn hawdd i chi.



Daeth deddf newydd i mewn y flwyddyn yma. Mae'n cael ei alw'n **Ddeddf Cymru 2017**. Mae'r ddeddf hon yn meddwl y gallwn ni ddewis sut i redeg etholiadau yng Nghymru.

Mae'r ddeddf hon yn cynnwys etholiadau ar gyfer:



Cynulliad Cenedlaethol Cymru



cynghorau sir



cynghorau tref a chymuned




Ni allwn ni newid etholiadau cyffredinol ar gyfer senedd y DU yn San Steffan.

Mae'r llyfryn hwn ynglŷn â newid:



pwy sy'n cael pleidleisio



sut rydych chi'n [cofrestru i bleidleisio](#)



sut rydych chi'n pleidleisio



beth sydd arnoch chi angen ei wneud i sefyll
mewn etholiad.

Pwy sy'n cael pleidleisio?

Oedran pleidleisio



Gallwch bleidleisio ym mhob etholiad os ydych chi dros 18 mlwydd oed.



Mae arnon ni eisiau i bobl ifainc 16 ac 17 mlwydd oed fedru pleidleisio mewn etholiadau lleol. Mae arnon ni eisiau iddyn nhw bleidleisio ar gyfer:



cyngorau sir



cyngorau cymunedol



cyngorau tref



Mae hwn yn newid mawr. Rydyn ni'n meddwl bod pobl ifainc yn gwybod mwy am wleidyddiaeth nawr trwy'r ysgol a gwefannau fel Facebook.



Ein gobaith ni yw, os byddwch chi'n pleidleisio pan ydych chi'n ifanc, y byddwch chi'n dal i bleidleisio. Fe fydd gennych chi ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth yng Nghymru ac efallai'n fwy tebygol o sefyll mewn etholiad.



Cwestiwn 1. Ydych chi'n cytuno y dylai oed pleidleisio mewn etholiadau lleol fod yn 16?

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Ddim yn siŵr ☐

Pobl o'r Undeb Ewropeaidd



Gall pobl o'r **Undeb Ewropeaidd (UE)** sy'n byw yng Nghymru bleidleisio mewn etholiadau lleol.



Mae'r **Undeb Ewropeaidd** yn grŵp o wledydd y mae eu llywodraethau yn gweithio gyda'i gilydd. Yn aml mae'n cael ei alw'n **UE**.



Dydyn ni ddim yn gwybod beth fydd yn digwydd i'w pleidlais pan fyddwn ni'n gadael yr **UE**. Mae arnon ni eisiau iddyn nhw fedru parhau i bleidleisio.



Ni all pobl o wledydd eraill sydd ddim yn y **Gymanwlad** bleidleisio. Er enghraifft ni all pobl o America neu Tsieina bleidleisio.



Mae'r **Gymanwlad** yn grŵp o wledydd y byddai'r DU yn arfer eu rheoli. Fel Jamaica ac India.



Ar ôl i ni adael yr **UE**, ni fydd pobl sy'n symud yma yn gallu pleidleisio.



Meddylwch am bobl sy'n byw yma, sy'n cadw at ein deddfau ac sy'n cael eu heffeithio gan benderfyniadau cyngor.



Ydyn ni'n rhoi pleidlais gyfreithlon i bawb sy'n byw yng Nghymru, ble bynnag y cawson nhw eu geni?



Cwestiwn 2. A oes arnoch chi eisiau i bobl o'r UE, fydd yn dod yma ar ôl i ni adael yr UE, gael pleidleisio?

Oes ☐

Nac oes ☐

Ddim yn siŵr ☐



Cwestiwn 3. A oes arnoch chi eisiau i bawb sy'n byw yng Nghymru fedru pleidleisio ble bynnag y cawson nhw eu geni?

Oes ☐

Nac oes ☐

Ddim yn siŵr ☐

Cael mwy o bobl i **gofrestru i bleidleisio**



Mae'n rhaid i chi fod ar y **gofrestr bleidleisio** i fedru pleidleisio.



Mae'r **gofrestr bleidleisio** yn rhestr o bobl sy'n gallu pleidleisio.



Nid yw pawb yn cael eu **cofrestru i bleidleisio**. Nid yw hyn yn deg oherwydd os nad ydych chi ar y **gofrestr**, dydych chi ddim yn cael pleidleisio.



Rydyn ni'n meddwl y byddai'n dda i adran o'r llywodraeth eich **cofrestru chi i bleidleisio** - fel swyddfa'r budd-daliadau neu swyddfa'r trwyddedau gyrru. Ni fyddai angen i chi wneud unrhyw beth – byddai'r swyddfeydd yn gwneud popeth.



Yr unig beth y byddai arnoch chi angen ei wneud fyddai gwneud yn siŵr bod eich enw yno.



Cwestiwn 4. A oes arnoch chi eisiau i swyddfeydd fel budd-daliadau roi eich enw i ni ar gyfer y gofrestr bleidleisio?

Oes ☐

Nac oes ☐

Ddim yn siŵr ☐

Pawb mewn tŷ yn cofrestru gyda'i gilydd



O'r blaen gallai un person mewn tŷ **gofrestru** pawb oedd yn byw yno. Ond cafodd hyn ei newid.



Weithiau y mae'n haws cael pawb sydd yn byw mewn tŷ i **gofrestru** ar un ffurflen.



Byddai angen i bawb lofnodi'r ffurflen mewn rhyw ffordd.



Bydd hyn yn meddwl y bydd pobl sydd ddim wedi'u **cofrestru** i bleidleisio ar hyn o bryd yn cael eu **cofrestru**.



Mae'n ffordd dda ar gyfer landlordiaid neu gartrefi gofal.



Cwestiwn 5. A oes arnoch chi eisiau i bawb mewn tŷ gofrestru ar yr un ffurflen?

Oes ☐

Nac oes ☐

Ddim yn siŵr ☐

Y ffordd rydyn ni'n pleidleisio

Gorsafoedd pleidleisio



Rydyn ni wedi defnyddio **gorsafoedd pleidleisio** a nodi eich pleidlais ag **X** am lawer o flynyddoedd.



Gorsaf bleidleisio yw'r adeilad ble rydych chi'n mynd i bleidleisio. Mae fel arfer yn rhywle fel ysgol neu ganolfan gymunedol.



Mae arnon ni angen meddwl am ffyrdd eraill o bleidleisio.



Efallai y bydd mwy o bobl yn pleidleisio os byddwn ni'n defnyddio ffyrdd eraill.



Mae'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio cyfrifiaduron neu ffonau clyfar nawr. Yn enwedig pobl ifainc.



Efallai bod arnon ni angen meddwl sut y gallwn ni eu defnyddio i bleidleisio.



Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr ei bod hi'n ddiogel gwneud hyn.



Ni ddylai neb chwarae'n wirion gyda phleidleisiau.



Cwestiwn 6. A oes arnon ni angen rhoi cynnig ar ffyrdd eraill o bleidleisio?

Oes ☐

Nac oes ☐

Ddim yn siŵr ☐

Pawb yn postio eu pleidlais



Byddech yn cael eich papurau pleidleisio yn y post.



Fe fydd amlen gyda stamp i anfon eich pleidlais yn ôl.



Maen nhw wedi ceisio gwneud hyn a gwnaeth mwy o bobl bleidleisio y ffordd hon.



Mae'n costio arian i bostio popeth ond byddwn yn arbed ar [orsafoedd pleidleisio](#) a staff.



Fe fyddwn yn ei wneud yn erbyn y gyfraith i ddefnyddio pleidlais bost rhywun arall.



Cwestiwn 7. A oes arnoch chi eisiau postio eich pleidlais ar gyfer etholiadau'r cyngor?

Oes ☐

Nac oes ☐

Ddim yn siŵr ☐

Pleidleisio ar eich cyfrifiadur



Byddai arnon ni angen cyfrifiaduron sydd â sgrîn gyffwrdd ym mhob [gorsaf bleidleisio](#).



Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr bod eich pleidlais yn cael ei wneud yn breifat. Gall staff helpu os nad ydych chi'n siŵr beth i'w wneud. Mae'n rhaid iddyn nhw wneud yn siŵr bod neb yn dweud wrthych chi sut i bleidleisio.



Bydd hyn yn arbed arian ar gyfer cyfrif y pleidleisiau.



Byddwn yn dal i fod angen lle gyda rhywun sy'n dweud faint o bleidleisiau mae pawb wedi'i gael.



Cwestiwn 8. A oes arnoch chi eisiau pleidleisio trwy ddefnyddio ein cyfrifiadur?

Oes ☐

Nac oes ☐

Ddim yn siŵr ☐

Pleidleisio ar eich cyfrifiadur neu ffôn clyfar



Byddai gennych chi gôd, fel sydd ei angen arnoch ar gyfer eich cerdyn banc. Bydd hyn yn gwneud yn siŵr mai dim ond chi sy'n cael defnyddio eich pleidlais.



Rydyn ni'n meddwl y bydd mwy o bobl yn pleidleisio trwy ddefnyddio'r ffordd hon.



Cwestiwn 9. A oes arnoch chi eisiau pleidleisio trwy ddefnyddio eich cyfrifiadur eich hun neu ffôn clyfar?

Oes ☐

Nac oes ☐

Ddim yn siŵr ☐

Defnyddio mannau eraill ar gyfer gorsafoedd pleidleisio

Efallai y byddwn ni'n defnyddio mannau fel:



archfarchnadoedd



tafarndai



canolfannau hamdden



gorsafoedd trenau.

Mannau y mae pobl yn ymweld â nhw bob dydd.



Fe fyddai mannau preifat i bleidleisio. A byddai'n rhaid iddyn nhw fod yn hawdd i bawb eu defnyddio.



Cwestiwn 10. A oes arnoch chi eisiau defnyddio mannau eraill fel gorsaf bleidleisio?

Oes ☐

Nac oes ☐

Ddim yn siŵr ☐

Sefyll mewn etholiad



Mae pobl sy'n sefyll mewn etholiad yn cael eu galw'n **ymgeiswyr**.



Weithiau bydd **ymgeiswyr** yn cael triniaeth wael. Mae pobl yn galw enwau arnyn nhw ac yn ymosod arnyn nhw.



Mae'n rhaid i **ymgeiswyr** roi cyfeiriad eu cartref ar eu papurau ac mae pawb yn gallu gweld hyn. Gall hyn wneud iddyn nhw deimlo'n anniogel.



Rydyn ni'n meddwl bod angen ffordd o gysylltu â nhw. Ond gall hyn fod yn gyfeiriad e-bost neu rywbeth o'r cyfryngau cymdeithasol fel Facebook neu Twitter.



Cwestiwn 11. Ydych chi'n meddwl y gallwn ni gymryd cyfeiriad cartref y person sy'n sefyll mewn etholiad oddi ar bopeth?

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Ddim yn siŵr ☐

Beth y mae ymgeiswyr yn ei feddwl



Mae'n bwysig eich bod yn gwybod beth y mae pob **ymgeisydd** yn ei gredu ynddo a sut mae arnyn nhw eisiau i bethau ddigwydd.



Gallwn ni ofyn i bob **ymgeisydd** ysgrifennu hyn i lawr mewn ffordd sydd yn hawdd i'w deall.



Rydyn ni'n gallu casglu'r pethau mae pob **ymgeisydd** yn ei ysgrifennu a'u rhoi nhw ar y rhyngwrdd.



Cwestiwn 12. Ydych chi'n meddwl bod ar bob ymgeisydd angen ysgrifennu beth y mae'n gredu ynddo a sut mae arnyn nhw eisiau i bethau ddigwydd? Yna rhoi hyn i gyd ar un wefan?

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Ddim yn siŵr ☐

Pleidiau gwleidyddol



Mae **plaid wleidyddol** yn grŵp sy'n cytuno sut i wneud bywyd yn well i bobl. Maen nhw'n dod at ei gilydd ac yn cael **ymgeisydd** ar gyfer etholiad. Yng Nghymru mae'r pleidiau gwleidyddol yn cynnwys:

- Plaid Cymru
- Llafur
- Ceidwadwyr
- UKIP
- Democratiaid Rhyddfrydol



Nid yw rhai **ymgeiswyr** yn perthyn i **blaid wleidyddol**. Maen nhw'n annibynnol.



Mae'n rhaid i **ymgeiswyr** ddweud o ba **blaid wleidyddol** maen nhw'n dod neu eu bod nhw'n annibynnol.



Ydych chi'n meddwl bod ar ymgeiswyr angen dweud pa blaid wleidyddol maen nhw'n sefyll drosto?

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Ddim yn siŵr ☐



Diolch am ateb ein cwestiynau. Anfonwch eich atebion at:



Democratiaeth Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ



RLGProgramme@wales.gsi.gov.uk



Mae'n rhaid i chi anfon eich atebion aton ni erbyn
10 Hydref 2017.

Geiriau anodd

Cofrestr bleidleisio

Mae hwn yn rhestr o bobl sy'n cael pleidleiso.

Cofrestru i bleidleisio

Dyma pryd y bydd gennych chi eich enw ar restr o bobl sy'n cael pleidleisio.

Cymanwlad

Mae'r **Gymanwlad** yn grŵp o wledydd y byddai'r DU yn arfer eu rheoli. Fel Jamaica ac India.

Gorsaf bleidleisio

Gorsaf bleidleisio yw'r adeilad ble rydych chi'n mynd i bleidleisio. Mae fel arfer yn rhywle fel ysgol neu ganolfan gymunedol.

Plaid wleidyddol

Mae **plaid wleidyddol** yn grŵp sy'n cytuno sut i wneud bywyd yn well i bobl. Maen nhw'n dod at ei gilydd ac yn cael ymgeisydd ar gyfer etholiad. Yng Nghymru mae'r pleidiau gwleidyddol yn cynnwys:

- Plaid Cymru
- Llafur
- Ceidwadwyr
- UKIP
- Democratiaid Rhyddfrydol

Undeb Ewropeaidd / UE

Mae'r **Undeb Ewropeaidd** yn grŵp o wledydd y mae eu llywodraethau yn gweithio gyda'i gilydd. Yn aml mae'n cael ei alw'n **UE**.

Ymgeisydd

Mae ymgeisydd yn berson sy'n sefyll mewn etholiad fel AC, AS neu gynghorydd.